

Cyngor Sir Caerfyrddin Polisi Ffioedd

Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013

Rhagarweiniad

Daeth Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 i rym ar 1 Hydref 2014. Lluniwyd y ddeddf i helpu i reoleiddio'r diwydiant, er mwyn gwella amodau ar safleoedd cartrefi symudol ac amddiffyn hawliau'r preswylwyr yn well.

Bydd cartrefi symudol ar safleoedd carafannau preswyl (a elwir yn 'barciau' yn aml) yn cael eu defnyddio gan eu perchenogion fel cartref parhaol drwy gydol y flwyddyn. Dylid cael caniatâd cynllunio penodol ar gyfer safle carafannau preswyl parhaol. Yn Sir Gaerfyrddin mae oddeutu 340 o gartrefi symudol wedi'u lleoli ar o leiaf 10 safle yn y sir. Yn aml, mae'r cartrefi hyn yn ddewis poblogaidd gan bobl hŷn sy'n ymddeol. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd preswylwyr yn berchen ar eu cartref symudol a byddant yn rhentu llain ar y safle. Dymuniad Llywodraeth Cymru yw bod y safleoedd hyn yn cael eu rheoli a'u reoleiddio'n well.

Mae'r Ddeddf yn diwygio Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 mewn perthynas â chartrefi symudol. Nid yw'n berthnasol i safleoedd carafannau gwyliau sydd, fel arfer, wedi'u trwyddedu i'w defnyddio am 8-10 mis y flwyddyn.

Rhodddwyd mwy o bwerau i awdurdodau lleol reoli safleoedd, rhoi trwyddedau a chymryd camau gorfodi er mwyn sicrhau y cydymffurfir ag amodau'r drwydded safle. Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn cynnwys pwerau newydd sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi tâl am y gwaith trwyddedu a gorfodi hwn.

Wrth gyfrifo'r costau, cyfeiriwyd at ddogfen yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol sef Deddf Cartrefi Symudol 2013 - Canllawiau i Awdurdodau Lleol ynghylch pennu ffioedd trwyddedau, a chyfrifiannell ffioedd a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

Crynodeb o'r Taliadau

Ffioedd Trwyddedau Safle

Mae cost ynghlwm wrth sefydlu'r cynllun trwyddedu, prosesu a gweinyddu pob trwydded newydd, ynghyd â chynnal gwiriadau cydymffurfiaeth ar bob safle ar adegau penodol drwy gydol y cyfnod trwyddedu sy'n para pum mlynedd.

Codir y tâl canlynol ar gyfer ceisiadau am drwydded:

	Ffi unffurf (£)	Y gost y llain (£)	Cyfanswm (£)
Trwydded Gychwynnol (Blwyddyn 1)	380.38	9.73	Cyfrifiwyd

Er enghraifft: Bydd yn rhaid i safle â 50 llain dalu:

$$£380.38 + (£9.73 \times 50) = £866.88 \text{ am y drwydded gychwynnol ym Mlwyddyn 1}$$

Cyfrifwyd y ffioedd gan ystyried cost pob cam o'r broses drwyddedu, yn enwedig amser y swyddogion o'r cam datblygu hyd at roi'r drwydded a'r tu hwnt i hynny.

Ymweliad Safle Blynnyddol

Dim ffi

Trwydded yn lle hen un

Ni chodir tâl os bydd perchennog safle'n gofyn am gopi o'r drwydded yn lle hen un.

Amrywio'r amodau trwyddedu presennol

Mae'n bosibl y bydd y cyngor yn codi tâl pan fydd perchennog y safle'n gofyn am amrywio amodau'r drwydded safle.

Ni chodir tâl os yw'r Cyngor o'r farn fod yn rhaid newid yr amodau.

Cyflwyno Rheolau'r Safle i'r Awdurdod Lleol

Dim ffi

Cost Adnewyddu (ar ôl 5 mlynedd)

Bydd yn rhaid i berchenogion Safleoedd Preswyl/Cartrefi Symudol ailrwyddedu'r safle ar ddiwedd y pum mlynedd. A chymryd na fu unrhyw newid yn y cyfamser, ni fydd y costau gweinyddu cychwynnol yn cael eu cynnwys a byddwn yn gallu cynnig ailrwyddedu am ffi ostyngol.

	Ffi unffurf (£)	Y gost y llain (£)	Cyfanswm (£)
Ailrwyddedu (Blwyddyn 5)	80.09	9.73	Cyfrifiwyd

Er enghraifft: Bydd yn rhaid i safle â 50 llain dalu:

$$£ 80.09 + (£9.73 \times 50) = £566.59 \text{ ar gyfer ailrwyddedu.}$$

Gweithredu camau gorfodi

Wrth ymchwilio i gwynion ynghylch problemau penodol ar safle a chyflwyno hysbysiadau statudol, codir tâl am amser swyddogion a chostau rhesymol yr eir iddynt, gan gynnwys costau teithio. Nid oes ffi unffurf ar gyfer y camau gweithredu hyn.

- **Hysbysiadau Cosb Benodedig** – am fân achosion o dorri amodau'r safle.
- **Hysbysiad Cydymffurfiaeth** – lle bydd perchennog safle yn methu neu wedi methu cydymffurfio ag un o amodau'r drwydded safle
- **Camau Gweithredu mewn Argyfwng** - pan welir bod risg i iechyd a diogelwch unrhyw rai ar y safle ar ddiwydd, oherwydd methiant i gydymffurfio ag un o amodau'r drwydded safle, mae gan yr Awdurdod Lleol bwerau i gymryd camau gweithredu i ddileu'r risg.

Mae gan yr Awdurdod Lleol yr hawl i adennill gan berchennog y safle y costau y mae'n mynd iddynt yn sgil cyflawni gwaith adfer a'r costau rhesymol o ran delio â'r achos. Ni fyddai hon yn ffi unffurf gan y byddai'n wahanol ym mhob achos. Byddai'r costau'n cynnwys amser y swyddogion perthnasol, a all gynnwys cost 'cyngor arbenigol', gweinyddu, llunio a rhoi hysbysiad ynghyd â chymryd y camau gofynnol.